Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 14 (Cy. 3)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("Gorchymyn 2018"). Mae'n mewnosod 4 corff ychwanegol yn y rhestr o gyrff dynodedig a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2018.

Effaith y diwygiad hwn yw y caniateir i'r adnoddau y disgwylir eu defnyddio gan y cyrff a fewnosodir yn yr Atodlen gan y Gorchymyn hwn gael eu cynnwys mewn cynnig Cyllidebol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

## 2023 Rhif 14 (Cy. 3)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Ionawr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *13 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *13 Chwefror 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2)(a) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 126A(6) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Trysorlys o ran gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2023.

(**1**) 2006 p. 32; mewnosodwyd adran 126A gan adran 44(1) a (2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25). Diwygiwyd is-adrannau (9) a (10) o adran 126A gan adran 9 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) a pharagraffau 2(6)(a) a (b) o Atodlen 1 iddi, yn y drefn honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen (Cyrff Dynodedig), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Adnodd Cyfyngedig (rhif y cwmni 14227941)"

"Cymwysterau Cymru"(**2**)

"Cyngor y Gweithlu Addysg"(**3**)

"Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru"(**4**).

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
11 Ionawr 2023

---

(**1**) O.S. 2018/1173 (Cy. 237), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1483 (Cy. 267), O.S. 2021/1345 (Cy. 347) ac O.S. 2022/58 (Cy. 22).

(**2**) Sefydlwyd gan adran 2(1) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5).

(**3**) Sefydlwyd gan adran 8(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30) fel Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac fe'i hailenwyd yn Gyngor y Gweithlu Addysg gan adran 2(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5).

(**4**) Sefydlwyd gan adran 5(1) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992 (p. 38) fel Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Ysgolion yng Nghymru ac fe'i hailenwyd yn Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan adran 73(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21).